

# Gwerthu i Gyngor Sir Ddinbych a Sir Fflint

Arweiniad i gyflenwyr a chontractwyr

Cyngor  
**sir ddinbych**  
denbighshire  
County Council



CYNGOR  
**Sir y Fflint**  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL

Diben yr arweiniad hwn ydy helpu darpar gyflenwyr a chontractwyr i ddeall sut mae'r Cyngorau ar hyn o bryd yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith a'u helpu i wella'u siawns o gael gwybod am gyfleoedd a chynnig am waith.



## Tudalen

Ble allaf gael gwybod am gyfleoedd contractio	3
Rheolau a rheoliadau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn	4
Sut caiff cyflenwyr eu dethol a'u penodi	5
Beth a ddisgwyliwn gan gyflenwyr	9
Cynigion ar y cyd a drwy Consortia	9
Sut mae'r Cyngor yn talu ei gyflenwyr	9
Buddion Cymunedol	10
Tendrau Cofiwch a Peidiwch	11
Hoffem glywed gennych chi	11
Cymorth pellach	13



# Ble allaf gael gwybod am gyfleoedd contractio

---

## **Wrth inni symud at system gaffael gwbl electronig, bydd angen i'n holl gyflenwyr gofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru**

Mae'r Cynghorau yn cyhoeddi cyfleoedd contractio drwy gyfrwng dwy system::

- Porth Proactis Plaza yw porth e-dendro newydd y Cyngor. Mae rhai Awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn ei ddefnyddio hefyd. Caiff cyfleoedd contractio eu hysbysebu drwy'r porth hwn i Gyflenwyr/Contractwyr sydd wedi cofrestru.
- GwerthwchiGymru yw'r wefan Gaffael Genedlaethol ar gyfer Cymru ac mae'n cynnwys yr holl gyfleoedd contractio a hysbysebwr yn eang islaw ac uwchben trothwyon yr UE. Mae gan GwerthwchiGymru gysylltiad uniongyrchol â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) lle mae'n rhaid i gontractau uwchben drothwyon yr UE gael eu cyhoeddi.

Mae'r Cyngor yn symud tuag at gaffael electronig gan ddefnyddio'r systemau uchod, ac felly bydd angen i fusnesau sy'n dymuno gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu waith i'r Cyngor, gofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru. Cewch gofrestru am ddim ar y ddwy system a chaiff gyflenwyr hysbysiadu tendro awtomataidd drwy e-bost, gweld cyfleoedd drwy dudalen hafan Cyfleoedd, diweddar a chynnal eu proffil, a gweld manylion contractau sydd wedi'u dyfarnu. Gallwch fynd i wefan Gwerthwchi Gymru a Phorth Proactis drwy wefan y Cyngor:-

[www.sirddinbych.gov.uk/tendraucyfredol](http://www.sirddinbych.gov.uk/tendraucyfredol)

[www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Selling-to-the-Council/Current-Opportunities.aspx](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Selling-to-the-Council/Current-Opportunities.aspx)

Mae'n bwysig eich bod dim ond yn cofrestru yn erbyn y categorïau sy'n berthnasol i'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith rydych chi'n eu cyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau na fyddwch ond yn cael hysbysiadu am y cyfleoedd contractio sy'n berthnasol i'ch maes gwaith chi.

Mae cymorth a chefnogaeth i baratoi tendrau neu i ddefnyddio'r system gaffael electronig ar gael gan nifer o sefydliadau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r adran Cymorth Pellach.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cynghorau yn gweithio tuag at ddarparu Cofrestr Contractau a fydd yn darparu gwybodaeth am ein contractau a'n fframweithiau cyfredol, gan gynnwys manylion ein cyflenwyr presennol a dyddiadau dod i ben. Bydd hyn yn eich galluogi i gynllunio ar gyfer cyfleoedd posibl i werthu i'r Cyngor i'r dyfodol. Rydym yn disgwyl y bydd y Gofrestr Contractau ar gael ar wefan y Cyngor erbyn hydref 2016.

# Rheolau a rheoliadau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn

Mae angen i'r Cyngor brynu mewn ffordd sy'n gyfreithlon, sy'n rheoli risg ac sy'n rhoi gwerth am arian

Ein holl fusnes yn cael ei gaffael gan ddefnyddio proses gystadleuol, boed hynny'n golygu cymharu dyfynbrisiau ar gyfer pryniannau cost isel neu fynd drwy'r drefn dendro ffurfiol ar gyfer contractau gwerth uwch. Mae angen inni sicrhau yr ymrwymir i bob contract yn gyfreithlon a dangos bod y broses gaffael gyfan yn agored, yn onest a thryloyw.

Ein cam cyntaf yw canfod a yw'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn dod o dan contract neu fframwaith sy'n bodoli eisoes. Os ydynt, yna mae'n rhaid inni ddefnyddio'r cyflenwr hwnnw. Os nad ydynt, yna mae gwerth y contract yn cael effaith ar y broses gaffael fel y nodir yn y tabl isod. Mae gwerth y contract yn cael ei bennu drwy amcangyfrif gwerth y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gwerth y Contract	Llwybr Caffael
<b>Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith</b> Llai na £10,000	Gofynnir am (o leiaf) 1 dyfynbris gan fusnesau.
<b>Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith</b> Rhwng £25,001 a throthwy'r OJEU	Gofynnir am (o leiaf) 4 dyfynbris gan fusnesau drwy e-Borth Proactis.
<b>Nwyddau, Gwasanaethau</b> Rhwng £25,001 a throthwy'r OJEU	Ceisir tendrau drwy hysbysebion cyhoeddus ar GwerthwchiGymru a Proactis a chynhelir y broses dendro yn electronig drwy e-Borth Proactis.
<b>Gwaith</b> Rhwng £25,001 a £250,000	Gofynnir am o leiaf 4 dyfynbris gan fusnesau drwy e-Borth Proactis. Neu, gellir ceisio tendrau drwy hysbysebion cyhoeddus ar GwerthwchiGymru a Proactis. Yn y naill achos, cynhelir y broses dendro yn electronig drwy e-Borth Proactis.
<b>Gwaith</b> Rhwng £250,001 a throthwy'r OJEU*	Ceisir tendrau drwy hysbysebion cyhoeddus ar GwerthwchiGymru a Proactis a chynhelir y broses dendro yn electronig drwy e-Borth Proactis.
<b>Nwyddau a Gwasanaethau</b> Ar drothwy'r OJEU neu uwch ben* <b>Gwaith</b> Ar drothwy'r OJEU neu uwch ben*	Ceisir tendrau drwy hysbysebion cyhoeddus ar GwerthwchiGymru, a chaiff yr un hysbyseb ei chyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU), a chynhelir y broses dendro yn electronig drwy e-Borth Proactis i gydymffurfio'n llwyr â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae Rheolau llawn Trefn Contractau'r Cyngor i'w gweld ar y wefan yn [www.sirddinbych.gov.uk/gwerthuircyngor](http://www.sirddinbych.gov.uk/gwerthuircyngor)  
[www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Selling-to-the-Council/Home.aspx](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Selling-to-the-Council/Home.aspx)

**\*Trothwyon OJEU (mae'r gwerthoedd yn gywir o 1af Ionawr 2016 am ddwy flynedd):-**

Nwyddau	Gwasanaethau	Gwaith
£164,176	£164,176	£4,104,394

Dan y gyfraith, rhaid i'r Cynghorau gydymffurfio â Chyfarwydddebau Caffael yr UE sy'n rheoli'r ffordd y mae prosesau caffael yn y sector cyhoeddus yn cael eu cynnal ar gyfer contractau dros y trothwyon a welir uchod. Pwrpas Cyfarwyddbau'r UE yw annog cystadleuaeth agored a thryloyw drwy dendro cystadleuol ledled yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i bob proses gaffael yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y rheini sydd islaw trothwyon yr UE, lynu wrth Egwyddorion Cytuniad yr UE, sef trin pawb yn gyfartal, peidio â gwahaniaethu, cydgydnabyddiaeth, cymesuredd a thryloywder. Mae'n rhaid i hysbysebion am gontractau uwchlaw terfynau trothwyon yr UE gael eu cyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU).

Rhaid i brosesau caffael yr UE ddilyn amserlenni gofynnol fel y nodir yng Nghyfarwydddebau Caffael yr UE. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl y broses gaffael a ddewisir ac a gyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) ai peidio. Bydd yr amserlenni gwirioneddol hefyd yn amrywio yn ôl maint a chymhlethdod y broses gaffael.

### Y Gymraeg

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau yn Saesneg fydd y dogfennau a gynhyrchir i gyd-fynd â chyfleoedd contractio. Gall tendrau neu ddyfynbrisiau, fodd bynnag, gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac os cânt ni fyddant yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn y Saesneg.

Os cafodd dyfynbris neu dendr ei gyflwyno yn Gymraeg, a bod angen cyfweld y cynigydd fel rhan o'r broses asesu, byddwn yn cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu er mwyn galluogi'r cynigydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad; ac os bydd y cynigydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai ein bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

# Sut caiff cyflenwyr eu dethol a'u penodi

Fwyfwy mae'r Cynghorau yn cynnal ei weithgareddau caffael yn electronig, ac erbyn mis Ebrill 2016 mae'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'i weithgareddau caffael yn cael eu cynnal fel hyn.

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio sut mae'r system electronig hon yn gweithio a'r hyn sy'n ofynnol gan ein cyflenwyr. Er bod yr union broses a ddilynir i ddethol a phenodi cyflenwyr yn dibynnu ar werth y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n cael eu caffael, bydd yn ei hanfod yn cynnwys y camau canlynol a esbonnir yn fanylach isod.



## Gwahoddiad i dendro/rhoi dyfynbris

Bydd y Cyngor yn hysbysu cyflenwyr am geisiadau am ddyfynbrisiau neu gyfleoedd contractio mewn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:

- yn defnyddio'r Cyfeirlyfr Cyflenwyr ar Proactis ac yn dethol cyflenwyr priodol i'w gwahodd i roi dyfynbris neu dendro; neu
- yn cyflwyno Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) ar GwerthwchiGymru ac – ar gyfer tendrau dros drothwyon yr OJEU – yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU); a/neu
- yn cyflwyno Hysbysiad Tendro sy'n lansio proses gaffael benodol, ar Proactis a GwerthwchiGymru ac – ar gyfer tendrau dros drothwyon yr OJEU – yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU).

Os ydych eisoes wedi cofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru ac, yn y broses gofrestru honno, rydych wedi ticio eich bod yn gallu cyflenwi yn y categori sy'n cael ei hysbysebu, cewch eich hysbysu o'r cyfle yn awtomatig. Os oes gennych ddiddordeb rhoi dyfynbris/tendro am y cyfle, bydd angen ichi ddewis y cyfle hwnnw a chlicio "cofrestru diddordeb" i fynegi diddordeb. Os nad ydych wedi cofrestru ar Proactis neu GwerthwchiGymru, bydd

angen ichi gofrestru eich cwmni yn gyntaf (gweler yr adran ar "Ble allaf gael gwybod am gyfleoedd contractio"), ac yna cofrestru diddordeb yn y cyfle a hysbysebir. Sylwer: pan fyddwch yn cofrestru, mae'n bwysig eich bod yn dewis y categorïau cyflenwi priodol ac yn dewis pa Cyngor fel "prynwr" er mwyn ichi dderbyn hysbysadau o gyfleoedd perthnasol.

Y naill ffordd neu'r llall, nid yw dim ond cofrestru eich cwmni ar Proactis yn cael ei ystyried fel mynegi diddordeb. Bydd dal angen ichi gofrestru diddordeb yn y cyfle a hysbysebir.

Mae dogfennau tendro ar gyfer contractau a hysbysebir i'w cael oddi ar Proactis yn yr Adran "Buyers Request" (ac maent i'w gweld cyn/heb ichi gofrestru diddordeb yn y cyfle). Mae'r holl ddogfennau perthnasol i'w gweld drwy Proactis ac ni chânt eu e-bostio at ddarpar gyflenwyr.

## Cyflwyno dyfynbris/tendr

Bydd cynigwyr yn cael amser rhesymol i gael y dogfennau tendro a chyflwyno cynnig – ac ar gyfer tendrau sydd ynghlwm wrth reoliadau OJEU, byddant o leiaf yn unol â'r terfynau amser gofynnol a nodir yn Rheoliadau'r UE. Yn ddibynnol ar werth y contract, bydd cyflenwyr dethol naill ai'n cael Cais am Ddyfynbris (RFQ) neu Wahoddiad i Dendro (ITT):

**Mae Cais am Ddyfynbris** yn broses llawer symlach na thendr llawn. Gofynnir am ddyfynbrisiau fel arfer drwy Proactis a gall cyflenwyr gael y cyfan neu rai o'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'r dyfynbris
- Manyleb o'r gofynion (y mae'n rhaid i gyflenwyr sylfaenu eu dyfynbris arnynt)
- Datganiadau Dull (cwestiynau yn gofyn sut caiff y gofynion eu cyflawni)
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio (os ceir elfen ansawdd rhaid i honno hefyd gael ei hasesu)
- Amrywiol gwestiynau yn cynnwys materion fel iechyd a diogelwch, cyllid, yswiriant, cyfle cyfartal a'r gallu i gyflenwi'r prosiect.

**Mae Tendr** – yn broses lawer mwy cynhwysfawr. Bydd cyflenwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cyfle yn gallu cael pecyn tendro drwy Proactis. Mae'r pecyn tendro fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Cyfarwyddiadau i dendrwr/cynigwyr
- Manyleb o'r gofynion
- Datganiad Dull (cwestiynau yn gofyn sut caiff y gofynion eu cyflawni)
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio
- Rhestr brisiau
- Telerau ac Amodau'r Contract
- Ffurflen Dendro
- Amrywiol gwestiynau yn cynnwys materion fel iechyd a diogelwch, cyllid, yswiriant, cyfle cyfartal a'r gallu i gyflenwi'r prosiect.

Ar gyfer dyfynbrisiau a thendrau, bydd yn ofynnol i gyflenwyr ddychwelyd eu hymatebion yn electronig drwy Borth Proactis erbyn y dyddiad a nodir.

Bydd y rhan fwyaf o dendrau sy'n werth dros £25,000 naill ai'n dilyn Trefn Gyfyngedig neu Drefn Agored:

- Mae i'r Drefn Gyfyngedig 2 gam: Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ) a Gwahoddiad i Dendro (ITT) i'r rhai sy'n llwyddiannus yn y cam PQQ.
- Un cam sydd i'r Drefn Agored: Gwahoddiad i Dendro: sy'n cynnwys detholiad o gwestiynau (tebyg i PQQ) a chwestiynau dyfarnu (tebyg i ITT).

Bydd cwestiynau safonol yn cael eu defnyddio yn Proactis i asesu bod cyflenwyr yn addas ac yn gymwys i gyflawni'r gofynion a nodir yn erbyn contract y cytunir arno, boed hynny ar gyfer broses agored neu ar gyfer PQQ mewn proses gyfyngedig. Gallai'r cwestiynau fod ar amrywiol ffurfiau gan gynnwys atebion Ie/Na, blychau testun neu lwytho dogfennau i fyny. Bydd Proactis yn storio'r atebion a roddir i'r cwestiynau hyn fel y gellir eu haildefnyddio a byddant yn ymddangos mewn unrhyw dendrau i'r dyfodol ymgeisiwch amdanynt.

Sylwer: efallai y gofynnir ichi ardystio bod gan eich cwmni yswiriant neu bolisiau penodol (e.e. yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, polisi cyfle cyfartal). Ni ofynnir ichi gyflwyno unrhyw ddogfennau i gefnogi hyn yn y cam ymgeisio ond os ydych yn gynigydd llwyddiannus mae'n rhaid ichi fod yn gallu darparu'r holl ddogfennau cyn i'r contract gael ei ddyfarnu.

# Sut mae cyflenwyr yn cael eu dewis a'u penodi

## Gwerthuso cynigion

Unwaith y bydd dyfynbrisiau/tendrau wedi eu cyflwyno, bydd y Cyngor yn eu harchwilio i sicrhau eu bod yn “cydymffurfio”, mewn geiriau eraill eu bod wedi dilyn y cyfarwyddyd yn nogfennau'r gwahoddiad. Ni fyddwch yn gallu newid eich cyflwyniadau ond mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am eglurhad os oes rhai manylion ar goll neu os gwelir gwallau penodol e.e. gwallau rhifyddol sy'n effeithio ar bris.

Bydd yr ymatebion o'r cynigion sy'n cydymffurfio naill ai'n cael eu hasesu ar sail pasio/methu neu'n cael eu sgorio. Mae popeth mae angen i dendrwr ei wybod am sut bydd yn cael ei werthuso yn cael ei nodi'n glir ym mhecyn y dogfennau tendro.

## Dyfarnu'r Contract

**Pris yn unig** – ar gyfer contractau sy'n seiliedig ar bris yn unig, dyfernir y contract i'r cyflenwr a gyflwynodd y pris isaf (oni ystyrir bod y dyfynbris neu'r tendr yn gynnig anarferol o isel na all y cynigydd gyfiawnhau ei fod yn ddigonol i gyflawni'r contract).

**Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT)** – ar gyfer contractau a ddyfernir ar sail cyfuniad o feini prawf pris ac ansawdd bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r cynigydd sydd â'r sgôr uchaf drwyddi draw yn seiliedig ar y meini prawf gwerthuso a nodir yn nogfennau'r tendr / dyfynbris.

Unwaith y bydd y Cyngor wedi gwerthuso a sgorio'r cynigion, bydd pob cynigydd yn cael gwybod canlyniad y broses rhoi dyfynbris neu dendro. Ar gyfer contractau sy'n werth mwy na throthwyon yr OJEU bydd pob cynigydd yn cael llythyr (drwy e-bost) sy'n dangos eu sgoriau a'u safleoedd. Bydd llythyrau at gynigwyr aflwyddiannus yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â pham bod y cais wedi bod yn aflwyddiannus. Ar gyfer contractau sydd â gwerth sydd islaw throthwyon yr OJEU mae'r wybodaeth ar gael os gofynnwch.

Bydd y broses o werthuso'r Dyfynbris neu'r Tendr yn seiliedig ar un o'r canlynol:

- **Pris yn unig** – a ddefnyddir fel arfer ar gyfer nwyddau'n unig, a dim ond ar gyfer contractau o dan £25,000; a
- **Pris ac Ansawdd** – ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau a gwaith a phob contract dros £25,000 (heblaw mewn rhai amgylchiadau eithriadol). Fe'i gelwir yn Dendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT) sy'n cael ei bwysoli, er enghraifft 40% pris a 60% ansawdd.

Gyda chontractau mawr, caiff darpar gyflenwyr hefyd eu gwahodd i gyfweiliad a/neu gyflwyniad..

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y llythyr naill ai'n dyfarnu neu, ar gyfer contractau mwy o faint a allai fod yn destun cyfnodau “segu” cyfreithiol, yn dyfarnu'r contract dros dro. Os gwnaed dyfarniad dros dro, bydd ail llythyr yn dilyn fel arfer (drwy e-bost) ar ôl y cyfnod segur yn dyfarnu'r contract yn ffurfiol. Yr eithriad i hyn fydd pan geir rhyw fath o her neu gymhlethdod cyfreithiol arall.

Ar ôl y llythyr dyfarnu byddwch yn cael, Archeb Brynu electronig ac, ar gyfer pob contract sy'n werth mwy na £25,000, ac mewn rhai amgylchiadau gontractau dan £25,000, becyn contract ffurfiol i'w lofnodi. Bydd y contract yn cael ei bostio atoch a bydd angen ei lofnodi a'i ddychwelyd i'r Cyngor o fewn yr amser a nodir (dau wythnos fel arfer). Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod rhif yr archeb brynu ac yn ei ddyfynnu ar bob anfoneb oherwydd y bydd hyn yn cyflymu'r broses o dalu anfonebau (gweler yr adran “Sut mae'r Cyngor yn talu ei gyflenwyr”).



## **Rheoli contractau**

Bydd gan bob Contract Reolwr contract wedi'i enwi gan y Cyngor a gyda'r unigolyn hwn y byddwch yn cysylltu fel arfer os bydd unrhyw faterion i'w trafod neu os bydd problemau'n codi.

Ar gyfer y rhan fwyaf o gontractau, disgwylir dechrau cyflawni'n fuan ar ôl dyfarnu. Gyda chontractau mwy, ar ôl dyfarnu'r contract mae'n bosibl y gwahoddir y cyflenwr llwyddiannus i gyfarfod i drefnu sut bydd y berthynas yn gweithio rhwng y partïon. Gall hyn gynnwys cytuno ar ba mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd i'r dyfodol a pwy fydd angen bod yn bresennol, sut adroddir ar hynt y contract a sut bydd unrhyw problemau a all godi yn cael sylw.

Bydd disgwyl i gyflenwyr a chontractwyr gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn unol â'r gofynion a nodir yn nogfennau'r contract. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod perthynas waith dda, agored ac adeiladol yn cael ei meithrin gyda chyflenwyr a chontractwyr, bydd hyn hefyd yn helpu i ganfod a datrys problemau cyn gynted â phosibl..

# Beth a ddisgwyliwn gan gyflenwyr

Mae'r gofynion sylfaenol y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan sefydliadau sy'n ceisio cyflawni contractau ar ein rhan yn dibynnu ar y math o gontract, ei werth a'r risg.

Yn gyffredinol, bydd angen i unrhyw sefydliad sy'n cymryd rhan mewn proses dendro gystadleuol fodloni'r gofynion canlynol, fan leiaf, er mwyn bod yn llwyddiannus:

- Prisiau cystadleuol
- Datganiadau dull cadarn ar gyfer cyflawni'r contract
- Sefydlogrwydd ariannol a gallu digonol i gyflawni'r contract
- Dim erlyniadau, arian yn ddyledus na thribiwnlysoedd yn erbyn y sefydliad na'i gyfarwyddwyr; neu dystiolaeth bod sefyllfa o'r fath wedi'i chywiro
- Polisiau yswiriant i lefel briodol; neu barodrwydd i gynyddu'r yswiriant i'r lefelau hyn os yw'r cynnig yn llwyddiannus
- Mynediad i bersonél ag adnoddau a'r gallu i gyflawni'r contract

## Cynigion ar y cyd a drwy Gonsortia

Mae'r Cyngor yn annog cyflenwyr a chontractwyr i gyflwyno eu cynigion am waith y Cyngor drwy gonsortia neu ar y cyd, yn enwedig ar gyfer contractau gwerth mwy neu gymhleth. Gall ceisiadau drwy gonsortia helpu i wella'r siawns o ennill gwaith ac maent o fudd yn arbennig i fusnesau llai a sefydliadau trydydd sector nad oes ganddynt o bosibl y sgiliau na'r gallu i gyflwyno cynigion am contractau mwy o faint ar eu pen eu hunain.

Yn ogystal â gweithio ar y cyd neu drwy gonsortia, gall busnesau llai a sefydliadau trydydd sector hefyd o bosibl sicrhau cyfleoedd is-gontractio gyda phrif Gontractwyr. Bydd y Cyngor yn annog y cyfleoedd hyn sy'n deillio o'r gadwyn gyflenwi drwy eu perthynas gyda'r prif Gontractwr, a bydd yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd o'r fath, er enghraifft digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr, yn cyrraedd busnesau a sefydliadau perthnasol. Rydym hefyd yn annog prif Gontractwyr i ddefnyddio Gwerthwchi Gymru er mwyn hysbysebu cyfleoedd is-gontractio i fusnesau llai.

Mae cymorth a chefnogaeth i baratoi tendrau neu ddefnyddio'r system gaffael electronig ar gael gan nifer o sefydliadau. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Cymorth Pellach

- Systemau a phrosesau rheoli sy'n sicrhau ansawdd da, cyson i gwsmeriaid
- Polisi iechyd a diogelwch a thystiolaeth o'u gweithredu'n llwyddiannus
- Polisi cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a thystiolaeth o'i weithredu'n llwyddiannus.

## Sut mae'r Cyngor yn talu ei gyflenwyr

Bydd telerau talu yn cael eu nodi yn y ddogfen gontract ac fel arfer bydd rhaid talu o fewn tri deg (30) diwrnod calendr o ddyddiad derbyn yr anfoneb ddilys. Mewn gwirionedd, bydd taliad fel arfer yn cael ei wneud o fewn 15 diwrnod calendr i ddyddiad derbyn anfoneb ddilys gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu proses fewnol sy'n gofyn bod gan bob anfoneb Orchymyn Prynu cyfatebol. Bydd cyflenwyr nad ydynt yn cyflwyno anfoneb gyda gorchymyn prynu dilys yn profi oedi cyn derbyn taliad. Dylai cyflenwyr fynnu derbyn gorchymyn prynu dilys gan yr unigolyn yn y Cyngor sy'n gofyn am y nwyddau, gwasanaethau neu waith.

Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod y gymuned ehangach yn cael budd o'r contractau a ddyfarnwn


Gall cymalau Budd Cymunedol gael eu defnyddio i ychwanegu amrywiol amodau economaidd, cymdeithasol, neu amgylcheddol i'r broses o gyflawni contractau cyhoeddus. Bydd y Cyngor, fel un o ofynion y contract, yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu rhyw fath o fuddion cymunedol yn sgil pob contract sy'n werth dros £1,000,000, a lle bo'n briodol gall hefyd fynnu'r buddion hyn gan gontractau sy'n werth llai. Bydd y math o fudd cymunedol sy'n ofynnol yn amrywio yn dibynnu ar y math o gontract, ond gallai enghreifftiau gynnwys:

- Darparu cyfleoedd i bobl sy'n economaidd anweithgar gael hyfforddiant a gwaith;
- Gweithio gydag ysgolion a chymunedau lleol i helpu pobl ifanc i ennill profiad drwy brentisiaethau, profiad gwaith neu waith gwirfoddol;
- Ei gwneud yn ofynnol i brif Gontractwyr agor eu cyfleoedd is-gontractio i fusnesau lleol;
- Gwario gyda busnesau lleol i gyflenwi deunyddiau.

Gall y gofyn i roi buddion cymunedol gael ei werthuso a'i sgorio fel rhan o'r broses asesu er mwyn penderfynu pa gynigydd sy'n ennill y contract. Os felly, fe'u gelwir yn fuddion craidd.

Gall cyflenwyr hefyd awgrymu buddion cymunedol pellach y byddent yn eu cynnig os enillat y contract. Gelwir y rhain yn fuddion cymunedol di-graidd, ac er nad ydynt yn cael eu gwerthuso, byddant yn gytundebol-rwymol os yw'r cyflenwr hwnnw'n ennill y contract

Am ragor o wybodaeth am gynnwys Budd Cymunedol, chliciwch ar y llun isod.



# Tendrau Cofiwch a Peidiwch

## COFIWCH.....

Gofrestru gyda phorth Proactis a phorth Gwerthwchi Gymru gan gofio diweddarau eich manylion fel eich bod yn cael yr hysbysiadau priodol.

Darllen y dogfennau'n fanwl a deall yr hyn sy'n ofynnol ohonoch.

Gofalu bod gennych yr amser a'r dyddiad cywir ar gyfer dychwelyd dyfynbrisiau neu dendrau, a chofiwch neilltuo digon o amser i gwblhau'r dogfennau (ni chewch eu cyflwyno ar ôl yr amser cau).

Sicrhau eich bod yn ateb y cwestiynau fel maent wedi'u gosod gan roi manylion am y gofynion penodol a darparu tystiolaeth fel y nodir yn yr arweiniad.

Darllen y meini prawf asesu yn ofalus a darparu atebion sy'n ymateb i'r meini prawf hyn a bydd hynny'n galluogi gwerthuswyr i asesu/sgorio eich ymateb yn hawdd.

Gofyn am eglurhad os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw ran o'r fanyleb neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol am ddogfennau'r tendr neu'r dyfynbris a/neu ddogfennau'r contract. Gallwch gyflwyno ymholiadau drwy Proactis.

## PEIDIWCH Â.....

Dychryn pan welwch y dogfennau tendro – gallwch wastad ofyn am help.

Cymryd yn ganiataol y bydd yr atebion a ddarperir i gwestiynau blaenorol yn cael eu hystyried mewn cwestiynau dilynol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ailadrodd gwybodaeth, oherwydd fe allai gwahanol werthuswyr fod yn sgorio gwahanol gwestiynau ac ni fyddant yn gallu gweld yr ymatebion i gyd.

Cymryd yn ganiataol bod gan y gwerthuswyr wybodaeth bersonol am eich sefydliad/cwmni, a/na gwybodaeth helaeth am y sector/maes, oherwydd yn gyfreithiol ni all gwerthuswyr ond sgorio'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir yn y dogfennau tendro.

Cymryd yn ganiataol y bydd cyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu drafod yr hyn a gyflwynwch ar lafar fel rhan o'r broses werthuso.

Cyflwyno eich cynnig ar y funud olaf oherwydd y gallai pethau tu allan i'ch rheolaeth, fel cysylltiad araf â'r we, achosi oedi.

# Hoffem glywed gennych chi

---

Nod yr arweiniad hwn yw helpu i roi i sefydliadau sydd eisiau gweithio gyda'r Chyngor well dealltwriaeth o sut i gynnig am waith a'r hyn a all fod yn ofynnol gennych fel cyflenwr neu gontractwr. Byddem yn croesawu eich adborth ar sut gallem wella'r arweiniad hwn, pa wybodaeth y teimlwch sydd ar goll ac a oes unrhyw beth yr hoffech ei weld mewn fersiynau mwy diweddar i'r dyfodol. Byddem hefyd yn hoffi cael eich adborth am eich profiad o gyflawni busnes gyda'r Cyngor ac am unrhyw faterion neu

broblemau a gawsoch.  
Anfonwch eich sylwadau ar:  
[pwrcasu@sirddinbych.gov.uk](mailto:pwrcasu@sirddinbych.gov.uk)

## Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth ac arweiniad i helpu busnesau i lwyddo. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyngor ar dendro'n llwyddiannus am gontractau sector cyhoeddus, eGaffael, ffurfio consortia a chynnig ar y cyd.

<https://businesswales.gov.wales/cy>

☎ 03000 6 03000

## Ffederasiwn y Busnesau Bach

Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn cynnig cefnogaeth ar y gyfraith, deddfwriaeth, busnes, arian a chyflwr busnesau i'w aelodau.

[www.fsb.org.uk/](http://www.fsb.org.uk/)

☎ 0808 2020 888

## Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn datblygu mudiadau trydydd sector yn y Sir..

[www.dvsc.co.uk/en/home/](http://www.dvsc.co.uk/en/home/)

✉ [office@dvsc.co.uk](mailto:office@dvsc.co.uk)

☎ 01824 702441

## Canolfan Cydweithredol Cymru

Canolfan Cydweithredol Cymru yw'r corff cenedlaethol yng Nghymru sy'n cynrychioli cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr, a gall ddarparu amrywiol wasanaethau a chefnogaeth i fudiadau yn y trydydd sector.

<http://cymru.coop/>

☎ 0300 111 5050

## Tim Gaffael Cyngor Sir Ddinbych a Sir Fflint.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Fflint un tîm Gaffael i ddelio efo'r ddau Gyngor. Mae'r tîm yn gallu darparu cyngor a chyfarwydd ar brosesu caffael ac anghenion cynnig.

[www.sirddinbych.gov.uk/gwerthuircyngor](http://www.sirddinbych.gov.uk/gwerthuircyngor)

✉ [pwrucasu@sirddinbych.gov.uk](mailto:pwrucasu@sirddinbych.gov.uk)

## Tim Datblygu Busnes Economaidd Cyngor Sir Fflint.

Mae'r tîm yn cynnig cyngor arbennig yn berthnasol i'r Cynning, yn cynnwys gweithdai 'sut i gynnig' a sut i nesáu at brynwyr yr adran gyhoeddus. Gallent ddarparu gwybodaeth bresennol ar y farchnad leol, efo awgrymau sut i barhau eich busnes at gynigion.

✉ [businessdev@flintshire.gov.uk](mailto:businessdev@flintshire.gov.uk)

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Selling-to-the-Council/Home.aspx>

## Tim Datblygu Busnes Economaidd Cyngor Sir Ddinbych.

Mae'r tîm yn cymryd arweiniad rhagweithiol o gwmpas buddsoddiad a chynnydd lleol, yn canolbwyntio ar helpu busnesau buddsoddi o gyfleoedd rhanbarthol a lleol, trwy rwydwaith, hyfforddiant, cyngor, cefnogaeth ac ariannu.

✉ [datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk)

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/busnes/busnes.aspx>

☎ 01824 706896